



# Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

## **Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a gynhaliwyd brynhawn Sadwrn y 21<sup>ain</sup> o Fedi 2019 am 4.30 pm yng Ngwesty Cwrt Bleddyn, Llangybi, Brynbuga**

### **Yn Bresennol:**

Goronwy Wynne (Llywydd), Iona Evans (Cadeirydd y Gymdeithas), Hywel Madog Jones (Is-gadeirydd), Margaret Roberts (Trysorydd), Alan Williams (Ysgrifennydd Aelodaeth), Eirian Davies, Jean Evans, Anne Gwynne, John Harry, Dafydd Horan, Nerys Horan, Elsbeth James, Jackie James, Mal James, Ann Jones, Emily Jones, Gwenan Jones, Pam Jones, Diane Norrell, Mair Owens, Carys Parry, Tudur Pritchard, Elizabeth Roberts, Gwyn Roberts, Iwan Roberts, Marian Roberts, Jennifer Thomas, Carwen Wigley Vaughan, Alwena M Williams, Dafydd Williams, Eirwen Williams, Harri Williams, Philip Williams, Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion)  
(34)

### **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Duncan Brown, Rob Evans, Gareth W Jones Margiad Jones, Richard Jones, Dafydd Lewis, G Roberts, Rheinallt Llwyd.

### **1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD**

Estynnodd Cadeirydd y Gymdeithas, Iona Evans, groeso cynnes i aelodau o'r Gymdeithas a diolchodd i Alan Williams am arwain taith hyfryd.

### **2. DERBYN COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL 2018**

Cynigiodd Ann Jones ac eiliodd Dafydd Williams dderbyn cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar y 15<sup>fed</sup> o Fedi 2018 yn gofnod cywir. Cytunwyd drwy ddangos dwylo.

### **3. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

#### **(i) Cofnod 5 Ystyried Dyfodol Swydd yr Is-lywydd**

Adroddodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor Gwaith wedi crybwyll enw yn dilyn argymhelliad Cyfarfod Blynyddol 2018 i benodi Is-lywydd er anrhydedd, yn ychwanegol at Duncan Brown. Dywedodd fod trafodaeth ar y gweill.

#### **(ii) Olynydd i Olygydd y Cylchlythyr**

Dywedodd y Cadeirydd iddi allu cyhoeddi'r newyddion ardderchog bod Gwyn Roberts wedi gwirfoddoli i gymryd lle Rheinallt. Estynnodd groeso mawr iddo.

### **4. ETHOL LLYWYDD**

Cynigiodd Hywel Madog Jones ac eiliodd Dafydd Williams ailethol Dr. Goronwy Wynne yn Llywydd y Gymdeithas. Cytunwyd drwy ddangos dwylo. Llongyfarchwyd Dr. Wynne gan y Cadeirydd.

Diolchodd y Llywydd i'r Cadeirydd a'r aelodau a chymerodd y Gadair.

## 5. ETHOL IS-LYWYDD

Ailetholwyd Duncan Brown yn Is-lywydd y Gymdeithas drwy ddangos dwylo.

## 6. AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH: ETHOL SWYDDOGION

### i. Cadeirydd:

Esboniodd Iona Evans iddi werthfawrogi'r fraint o fod yn Gadeirydd am dair blynedd a'i bod wedi disgwyl camu o'r neilltu eleni ond adroddodd nad oedd yr Is-gadeirydd yn dymuno cael ei enwebu. Ni chafwyd enwebiadau o'r llawr a dywedodd Iona y byddai'n fodlon gwasanaethu am un flwyddyn arall ar yr amod bod y Gymdeithas yn canfod olynydd.

Ailetholwyd Iona yn Gadeirydd drwy ddangos dwylo. Diolchodd y Llywydd i Iona am arwain y Gymdeithas am dair blynedd lwyddiannus.

### ii. Is-gadeirydd:

Esboniodd Hywel Madog Jones ei fod yn awyddus barhau i gymryd rhan mewn prosiectau'r Gymdeithas ond y byddai'n fodlon ildio'r Is-gadeiryddiaeth er mwyn hwyluso penodi rhywun a allai fod yn olynydd i'r Cadeirydd. Ni chafwyd enwebiad. Cytunwyd i ofyn i'r Pwyllgor Gwaith ddelio â'r sefyllfa fel y gwelant yn dda.

Ailetholwyd y canlynol drwy ddangos dwylo:-

- |                                    |                    |
|------------------------------------|--------------------|
| iii. <u>Trysorydd:</u>             | Margaret Roberts   |
| iv. <u>Ysgrifennydd:</u>           | Gareth Wyn Jones   |
| v. <u>Ysgrifennydd Aelodaeth:</u>  | Alan Williams      |
| vi. <u>Ysgrifennydd Cofnodion:</u> | Jackie Willmington |

Diolchodd y Llywydd iddynt fesul un am eu gwaith.

Tynnwyd sylw bod Alan Williams yn bwriadu camu i'r neilltu yn 2020 ar ôl bod yn Ysgrifennydd Aelodaeth am dros ddeng mlynedd ac felly bod angen canfod olynydd. Adroddwyd bod y nifer o aelodau'n weddol sefydlog a phwysleisiwyd pwysigrwydd cofrestru aelodau newydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Anogwyd ar unrhyw aelod â diddordeb yn y swydd i gysylltu â'r Pwyllgor Gwaith.

## 7. ETHOL SWYDDOGION ERAILL

### a. Trefnyddion Gweithgareddau

Ar ôl galwad am enwebiadau eraill, ailetholwyd y canlynol drwy ddangos dwylo:-

- |                                      |                    |
|--------------------------------------|--------------------|
| i. Gogledd Orllewin:                 | John Griffith      |
| ii. Gogledd Ddwyrain:                | Iwan Roberts       |
| iii. De a'r Canolbarth:              | Eirian Davies      |
| iv. Trefnydd y Gynhadledd Flynyddol: | Elizabeth Roberts  |
| v. Trefnydd Gwyliau                  | Carys Meurig Parry |

Diolchodd y Llywydd i'r Trefnyddion Teithiau am eu cyfraniad hanfodol, i Elizabeth am drefnu cynhadledd lwyddiannus ac i Carys am ymgymryd â threfnu gwyliau.

### b. Golygyddion

Ailetholwyd y canlynol yn ddiwrthwynebiad:-

- |                           |              |
|---------------------------|--------------|
| i. <u>Y Naturiaethwr:</u> | Dafydd Lewis |
| ii. <u>Y Cylchlythyr:</u> | Gwyn Roberts |

Diolchwyd i Dafydd am ei waith caled. Mynegwyd gwerthfawrogiad bod Gwyn wedi gwirfoddoli i olygu'r Cylchlythyr a dymunwyd y gorau iddo yn y swydd.

c. Cynrychiolwyr Is-bwyllgorau

Ailetholwyd y canlynol yn ddiwrthwynebiad:

Llên Natur:

Duncan Brown

Y Panel Enwau:

Twm Elias

Is-bwyllgor Marchnata:

Hywel Madog Jones

ch. Aelodau eraill o'r Pwyllgor Gwaith

Ailetholwyd y canlynol drwy ddangos dwylo:-

Rob Evans

Tudur Pritchard

Philip Williams

Nodwyd bod lle i un neu fwy o aelodau ychwanegol ar y Pwyllgor Gwaith.

Etholwyd

Dafydd Horan

## 8. ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Cyflwynodd Margaret Roberts y fantolen am flwyddyn ariannol y Gymdeithas 2018-2019. Dangoswyd incwm o £33,478 yn cynnwys £13,755 o'r tâl aelodaeth. Yr eitemau mwyaf sylweddol yn y gwariant o £30,148 oedd argraffu a dosbarthu cylchgronau, stonin yr Eisteddfod, yswiriant a chostau cyfrifiadurol. Bu £38012 mewn llaw ar 30 Mehefin 2019, gan gynnwys £7,000 o ewyllys y diweddar David Bryan James a neilltuwyd ar gyfer prosiectau cyfalaf.

Tynnwyd sylw bod incwm a gwariant o wyliau'r Gymdeithas yn ymddangos ar y fantolen ond nid oedd cost net i'r Gymdeithas.

Tynnodd Alan Williams sylw bod incwm yn £3,000 uwch na gwariant yn ystod y flwyddyn dan sylw, yn wahanol i'r golled a welwyd yn y flwyddyn flaenorol. Serch hynny mynegodd y farn bod rhaid parhau i fonitro'r sefyllfa ariannol yn ofalus. Cytunodd y Trysorydd fod y sefyllfa yn foddhaol ar hyn o bryd ond dywedodd na ellid cymharu gwariant blynyddol yn uniongyrchol oherwydd gellid talu costau'r Eisteddfod a'r Gynhadledd naill ai cyn ynteu ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

## 9. DERBYN Y FANTOLEN ARIANNOL A PHENODI ARCHWILYDD ALLANOL

Cynigiodd Philip Williams ac eiliodd Tudur Pritchard dderbyn y fantolen. Ni fynegwyd gwrthwynebiad a chytunwyd drwy ddangos dwylo.

Cytunwyd yn yr un modd i ganiatáu i'r Trysorydd a'r Cadeirydd benodi archwilydd allanol yn ôl y drefn arferol.

## 10. PENNU'R TÂL AELODAETH

Adroddwyd i'r Pwyllgor Gwaith gynghori na welwyd angen codi'r tâl aelodaeth yn 2020/21. Cytunwyd, drwy ddangos dwylo.

## **11. ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWAITH**

Dywedodd y Cadeirydd bod y Gymdeithas wedi cael blwyddyn lwyddiannus. Tynnodd sylw at rifynnau diddorol o'r Cylchlythyr a'r Naturiaethwr. Diolchodd i Rheinallt am ei waith ardderchog gan nodi bod y Gymdeithas yn ffodus i gael Gwyn yn olynnydd.

Adroddwyd bod stondin y Gymdeithas yn Eisteddfod Sir Conwy yn brysur iawn gan ddiolch i'r aelodau a drefnodd yr arddangosfa a'r teithiau a hefyd i'r rhai a ddarparodd paneidiau. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn falch o weld cystadleuwyr yng nghystadleuaeth y Gymdeithas eleni ac yn edrych ymlaen at ddarllen yr erthygl fuddugol yn y Naturiaethwr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a fynychodd y cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn gan nodi y cafwyd trafodaeth hir ar brydiau.

Diolchwyd i'r Trefnyddion am drefnu rhaglen amrywiol o weithgareddau ac i arweinwyr teithiau. Soniwyd bod rhaid cofio hefyd am aelodau nad ydynt yn cerdded yn aml bellach.

Adroddodd y Cadeirydd iddi fwynhau wythnos fythgofiadwy ar y gwyliau a drefnwyd gan Carys Parry yn yr Ynysodd Erch. Cyhoeddwyd mai ar yr Arfordir Jwrasig byddai gwyliau'r Gymdeithas yn 2020. Tynnwyd sylw y byddai'r gwesty ym Mae Lulworth a bod manylion pellach ar gael ar dudalen Weplyfr a gwefan y Gymdeithas.

Gofynnwyd i unrhyw aelod gyda sylwadau gysylltu ag aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

Gorffennodd y Cadeirydd drwy ddweud ei bod yn obeithiol y byddai'r flwyddyn nesaf yr un mor llwyddiannus.

Diolchodd y Llywydd i Iona am ei hadroddiad. Ychwanegodd ei fod yn cofio amser pan oedd yn anodd llenwi swyddi'r Gymdeithas a'i fod yn falch o weld bod y sefyllfa wedi gwella.

## **12. UNRHYW FATER ARALL**

Dywedodd Harri Williams iddo fod eisiau canmol gwaith Anne Gwynne yn cadw cofnodion manwl o deithiau'r Gymdeithas yn ei hardal. Diolchodd y Llywydd i Anne a dywedodd ei fod wedi gweld y nodiadau a gobeithiodd y byddant yn gweld golau dydd ar ffurf llyfr.

## **13. Y CYFARFOD BLYNYDDOL NESAF**

Cyhoeddodd y Cadeirydd fod Cymdeithas Edward Llwyd wedi derbyn gwahoddiad i gymryd rhan mewn Gŵyl Amgylcheddol i'w chynnal yng Nghaernarfon yn ystod trydydd penwythnos mis Medi 2020, Awgrymodd y byddai'n gyfle ardderchog i hyrwyddo gweithgareddau'r Gymdeithas ond gellid golygu gohirio'r Gynhadledd ac felly'r Cyfarfod Blynyddol tan ddiwedd mis Medi neu fis Hydref. Dywedodd y byddai Cylchlythyr y gwanwyn yn cynnwys manylion llawn.

Dywedodd y Llywydd ei fod yn falch iawn o weld y Gymdeithas yn ymweld â Brynbuga a dilyn ôl traed Alfred Russel Wallace. Crynhodd hanes Wallace gan ddweud ei bod yn anffodus bod camddealltwriaeth wedi codi'n diweddar ynglŷn â'r perthynas rhwng Wallace a Darwin.

Llongyfarchodd Dr. Wynne yr aelodau a drefnodd y Gynhadledd. Diolchwyd i bawb am eu presenoldeb a daethpwyd â'r cyfarfod i ben.